# ADRODDIAD BLYNYDDOL – 2013/14

**Y Cynghorydd:** June Marshall **Grŵp**: Democratiaid Rhyddfrydol

**Ward:** Bangor - Menai

**Bwriad yr adroddiad blynyddol:**
Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw cynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.

**Rôl a chyfrifoldebau:**
Aelod o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol, y Pwyllgor Cynllunio a Fforwm Ardal Ogwen.

**Gweithgareddau etholaethol:**
Ymgymerais ag amrywiol waith achos yn y Ward drwy gydol y flwyddyn. Roedd y problemau'n cynnwys: Tai amlfeddiannaeth, materion sbwriel, sŵn, problemau priffyrdd, tyllau yn y ffyrdd, palmentydd peryglus, cynllunio a thrwyddedu.

Fel Ysgrifennydd Cymdeithas Bangor Uchaf, sef cymdeithas trigolion sy'n ymdrin â phroblemau neu weithgareddau yn y ward, fe wnes i fynychu cyfarfodydd misol gyda thrigolion i wrando ar eu barn a'u pryderon a rhoi gwybodaeth iddynt am unrhyw gais cynllunio neu drwyddedu neu unrhyw ddigwyddiad arall yn y ward.

Fe wnes i fynychu nifer o gyfarfodydd gyda thrigolion, swyddogion a deiliaid portffolio i drafod problemau tai amlfeddiannaeth.

Fe wnes i fynychu cyfarfodydd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i gefnogi gwrthwynebiadau gan drigolion ynghylch oriau agor hwyr yn y nos.

Fe wnes i gyfarfod â'r heddlu sawl gwaith i drafod materion trwyddedu ac i gerdded o amgylch y ward i adnabod problemau.

**Mentrau a gweithgareddau eraill:**
Rwy'n aelod o Gyngor Dinas Bangor, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae bod yn aelod o'r Cyngor Dinas yn fy nghynorthwyo i fod yn ymwybodol o'r materion ehangach yn y ddinas. Fel Cynghorydd Garth, rwy'n helpu i redeg Canolfan Gymunedol Garth, sy'n rhoi lleoliad fforddiadwy a hygyrch i weithgareddau'r gymuned. Rwyf hefyd yn Ysgrifennydd Cymdeithas Gefeillio Bangor Soest, sy'n hyrwyddo ymweliadau a chyswllt rhwng dinasoedd Bangor a Soest (Yr Almaen).

**Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau isod:**

| PWYLLGOR | YN BRESENNOL |
|---|---|
| Y Cyngor | 4 |
| Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 5 |
| Pwyllgor Cynllunio | 12 |
| Cyfarfod Paratoi'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 1 |
| Fforwm Ardal Ogwen | 2 |

Canran Presenoldeb: 75%

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol isod:**
Gweithgor Agenda Wledig
Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
Gweithdai ar gasgliadau gwastraff
Gweithdy ar rôl yr aelod etholedig
Seminar ar drethi busnes
Cyfarfod ynghylch tai gofal ychwanegol
Sesiwn ynghylch datganoli a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru
Grŵp Prosiect Bangor
Cyfarfod ynghylch mynediad i'r anabl yn Stryd Fawr Bangor.

| **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol isod:** | **Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd yn y cyfarfodydd isod:** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Ysgol Cae Top (Llywodraethwr yr Ysgol)<br>Grŵp Cyswllt Prifysgol Bangor<br>Tribiwnlys Prisiad Gogledd Cymru (ar y panel i ddewis aelodau'r Tribiwnlys i gynrychioli Gwynedd) | |

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu isod:**

| | |
|---|---|
| **Corfforaethol** | |
| Data Perfformiad yr Awdurdod ac Ysgolion | |
| Llywodraethwyr Ysgolion ac Amddiffyn Plant | |
| Gwybodaeth am Bobl: Eich Cyfrifoldeb Chi | |
| Materion Priodoldeb ac Apeliadau Cynllunio | |
| Panel Rhiant Corfforaethol | |
| | |
| **Ychwanegol** | |
| Hyfforddiant iPad gyda Bryn Goodman Jones | |
| | |
| | |

Cyfansswm nifer o oriau: 14.5